menter iaith
Castell-nedd Port Talbot

Adroddiad Blynyddol 2017-18

RHAGAIR

Cafwyd flwyddyn lwyddiannus arall wrth i'r Fenter parhau i weithio o Ganolfan Gymraeg Tŷ'r Gwrhyd, Pontardawe. Ers ymsefydlu yn y Ganolfan mae'r Fenter wedi parhau i adeiladu ar y berthynas arbennig gydag Academi Hywel Teifi ac wedi parhau i weithio yn agos iawn gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Eleni daeth y berthynas yma'n agosach fyth gyda'r Awdurdod yn penderfynu ariannu cynllun arbennig a olygai mai'r Fenter oedd yn gyfrifol am lunio a datblygu cynllun hybu'r Cyngor. Drwy weithio yn agos gyda grŵp tasg a gorffen o Gynghorwyr lleol aethpwyd ati i osod cynllun a rhaglen waith manwl mewn lle. Golygai hyn bydd y Fenter a 'r Cyngor yn parhau I weithredu er mwyn datblygu'r Gymraeg o fewn y Fwrdeistref.

Yn ogystal aethpwyd ati i ddechrau ar y gwaith o ail edrych a gwirio polisïau'r Fenter a datblygu llawlyfr staff ar gyfer y dyfodol ac er mwyn bodloni gofynion PQASSO sef cynllun sydd yn edrych ar ansawdd y cwmni o safbwynt gweithredu.

Mae'r Fenter yn parhau i weithredu cynllun Aman Tawe ar ran Llywodraeth Cymru ac mae'r cynllun gwasanaethau ieuenctid sydd yn cael ei weithredu ar y cyd rhwng Ysgol Gyfun Ystalyfera a'r Fenter yn parhau.

Yn ystod mis Tachwedd 2017 penodwyd swyddog newydd o dan brosiect Cymraeg Byd Busnes Llywodraeth Cymru ac mae'r Swyddog yn gweithredu ar draws Siroedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot er mwyn cefnogi busnesau i wneud defnydd o'r Gymraeg.

Ein prif nod eleni oedd canolbwyntio ar ymyraethau o fewn y meysydd strategol canlynol gan hefyd edrych i sefydlu mwy o bartneriaethau er mwyn datblygu , hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ariannwyd y gwaith craidd yma gan Lywodraeth Cymru.

MEYSYDD STRATEGOL 2017-18

Teuluoedd

Plant a Phobl Ifanc

Y Gymuned

Dathlu gwyliau a digwyddiadau cenedlaethol

PWYLLGOR RHEOLI AC ARDAL

Mae'r Fenter yn llwyddo diolch i'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Rheoli, Pwyllgorau ardal a thrigolion y Fwrdeistref Sirol. Yn ystod y cyfnod roedd gan y Fenter 11 o Gyfarwyddwyr a bu gwaith penodol yn digwydd er mwyn datblygu'r staff a'r Cyfarwyddwyr wrth i ni baratoi ar gyfer asesiad PQASSO.

STAFF

Owain Glenister – Prif Swyddog

Siân Elen Jones – Swyddog Datblygu Partneriaith Aman Tawe

Hari Powell – Swyddog Datblygu

Geraint Jones – Swyddog Datblygu Ieuenctid

Llinos Haf – Swyddog y Gymraeg Byd Busnes

PROSIECTAU

Teuluoedd

Yn ystod y cyfnod cynhaliwyd 113 o weithgareddau ar gyfer y teulu a dosbarthwyd dros 180 o becynnau ymwybyddiaeth iaith

Daeth dros 3000 o rieni i'r gweithgareddau. Mae'r gweithgareddau yn amrywio o sesiynau celf a chrefft, canu a dawnsio ac yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a chyflwyno gwybodaeth am apiau a'r cyfryngau Cymraeg. Trwy flaenoriaethu'r maes yma rydym wedi sicrhau bod mwy o rieni a phlant ifanc yn derbyn gwybodaeth am fanteision y Gymraeg o safbwynt addysg, gyrfa a diwylliant. Rydym yn defnyddio'r sesiynau i deuluoedd ar gyfer cyflwyno pobl i gymeriadau sydd yn cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg ee Sam Tan, Peppa Pinc. Rydym hefyd yn cyflwyno gwyliau Cymraeg i deuluoedd megis Dydd Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi ayb.

Rydym yn sicrhau bod Sïon Corn ac unrhyw gymeriadau yr ydym yn ei ddefnyddio yn medru'r Gymraeg. Un o brif lwyddiannau'r cyfnod ydy targedu busnesau sydd yn ymwneud a gofal plant er mwyn ceisio ymyrryd ar ddefnydd iaith a cheisio defnyddio arbenigedd y Swyddog Busnes i ddylanwadu o fewn y maes yma.

Dyma rhai o'r uchafbwyntiau!



1. Cylch Canu – Aman Tawe
2. Sbri Sadwrn – Tŷ'r Gwrhyd
3. Bore Hwyl i'r Teulu
4. Gŵyl Plantawe

Plant a Phobl Ifanc

Ystyrir plant a phobl ifanc yn ddwy garfan allweddol wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r Ysgol yn anodd ond yn hanfodol. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi llwyddo i ddatblygu 152 o weithgareddau ar gyfer dros 4000 o unigolion, gyda gwaith Geraint Jones o fewn Ysgol Gyfun Ystalyfera yn werthfawr iawn i'r cyswllt yma gyda'r bobl ifanc. Rydym wedi gweld Stafell Stwnsh yn mynd o nerth i nerth gyda ymyraethau iaith ar gael yn ystod pob gwers ac yn ystod amser cinio pob dydd. Mae clwb ieuenctid Castell-nedd wedi gweld twf yn ystod y flwyddyn gyda dros 20 o aelodau yn mynychu'n rheolaidd a'r Fenter yn gyfrifol am ariannu'r clwb. Yn ystod y flwyddyn cafwyd nifer o sesiynau iwcalili ar gyfer plant a phobl ifanc ac fe ddaeth

dros 900 o blant i weld Ed Holden, Mellt a Mei Gwynedd yn perfformio yn ystod gig Tanio'r Ddraig! Gwnaeth Mei Gwynedd ysgrifennu can am yr ardal gyda disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yr ysgolion cynradd ac fe chwaraewyd y gan ar y radio!

Un o brif lwyddiannau'r cyfnod oedd cymhwyso dros 42 o bobl ifanc mewn rygbi safon lefel un, sy'n golygu bod 42 o hyfforddwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref.

Dyma rhai o'r uchafbwyntiau:

1. Gwyl Tanio'r Ddraig, Ystalyfera
2. Gweithdai Ysgrifennu Can Mei Gwynedd
3. Clwb ieuenctid Castell-nedd
4. Gweithdai iwcalilis
5. Sesiwn cymhwyso hyfforddiant rygbi



Y gymuned

Er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed i fod yn iaith hyfyw, mae'n hanfodol ein bod yn cynyddu ac yn datblygu mwy o weithgareddau cymdeithasol i rhieni ac rydym wedi trefnu dros 56 o weithgareddau ar gyfer 1724 o oedolion. Rydym wedi ceisio rhoi sylw penodol i ardaloedd sensitif o rhan yr iaith ac hefyd edrych ar ardaloedd trefol lle mae trwch o bobl sydd angen gwasanaethau. Rydym yn parhau gyda Gwyl yr Iaith ar Daith er mwyn ceisio llusgo'r iaith o un ardal i'r llall a chael pobl i gymryd diddordeb yn yr iaith.

Dyma rhai o'r uchafbwyntiau!

1. Gigs y Gwach
2. Sesh Sŵn
3. Sesiynau Cwmafan
4. Gig Huw Chiswell
5. Teithiau cerdded
6. Cwis Nadolig Clwb Rygbi'r Alltwen



Dathlu Gwyliau

Fel rhan o weledigaeth y Fenter o gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel iaith fyw, rydym wedi blaenoriaethu codi ymwybyddiaeth o ddyddiau penodol er mwyn cyd weithio gyda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo dyddiadau megis, Dydd Miwsig Cymru, Diwrnod Shwmae Sumae, Diwrnod Owain Glyndwr a Dydd Santes Dwynwen.

Gweithiodd Swyddog y Fenter gyda ysgolion yr ardal i gynnig gweithdai iwcalili yn ystod yr wythnos yn arwain i fyny tuag at Dydd Miwsig Cymru. Yn ogystal trefnwyd sesiynau ar gyfer cylch Sgiwen a cynhaliwyd sesiynau yng Ngholeg Castell-nedd ac yn Ysgol Gyfun Ystalyfera.

Trefnwyd pared yng Nghastell-nedd er mwyn dathlu Dydd Gwyl Dewi ond oherwydd y tywydd bu'n rhaid i bob ysgol gau am yr wythnos.

Cynhaliwyd Sbri Sadwrn arbennig ar gyfer dathlu Diwrnod Santes Dwynwen.

1. Santes Dwynwen – Sbri Sadwrn
2. Diwrnod Shwmae Sumae – Coleg Castell-nedd

3. Dydd Miwsig Cymru – Cylch Sgiwen
4. Cwis Nadolig Clwb Rygbi Alltwen

Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot – Ffeithiau 2017/18

314 - Nifer o weithgareddau a drefnir

Dros **18,000** o bobl wedi mynychu gweithgareddau

5 – Nifer o staff llawn amser

68 – Nifer o wirfoddolwyr rheolaidd

73 – Partneriaid cenedlaethol a lleol

7564 – Nifer o bobl sydd yn derbyn cylchlythyron uniongyrchol

Mae'r Fenter Iaith yn derbyn grant blynyddol o gyfeiriad Lywodraeth Cymru er mwyn darparu nifer o weithgareddau craidd. Heb ymroddiad y Llywodraeth ni fyddai'n bosib il'r Fenter weithredu. Mae'r costau yma yn mynd tuag at gostau staff, costau craidd a chostau cynnal y swyddfa. Hoffwn ddiolch hefyd i Ysgol Gyfun Ystalyfera ac i'r Cyngor am weithio gyda ni yn ystod 2017/18, i Fentrau Iaith Cymru am bob cefnogaeth, ac i'r gwirfoddolwyr sydd yn cyfrannu drwy gynllun Talebau Tesco y Fenter.

Os hoffwch wybod mwy am sut mae'r Fenter yn gweithredu, cysylltwch:

Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot
Stryd Holly
Pontardawe
SA8 4ET
01639 763819
menter@micnpt.org